**Tasg:**

Sut rydych chi'n ymateb i'r ffordd y mae'r crwca'n cael ei gyflwyno yn y gerdd? Ydych chi'n teimlo cydymdeimlad tuag ato? Trafodwch sut mae Thomas yn ei gyflwyno, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r gerdd i gefnogi eich barn.

**Geiriau allweddol**

| | |
|---|---|
| **Felly** | **llawn emosiwn** |
| **Oherwydd hyn** | **delweddaeth** |
| **Yn sgil hyn** | **cymhariaeth** |
| **Ar y llaw arall** | **cyffelybiaeth** |
| **Neu, fel arall** | **trosiad** |
| **effeithiol** | **personoli** |
| **yn tynnu sylw** | **grymus** |
| **cignoeth** | **nerthol** |
| **trawiadol** | **pwerus** |
| **empathi** | |

## ENGHRAIFFT PTE:

Yn y lle cyntaf, mae'r crwca'n cael ei alw'n "solitary mister", mae'n awgrymu nad oes ganddo enw. Mae'n treulio ei holl amser yn y parc ynghanol pobl ond does neb yn gwybod ei enw. Mae "solitary" yn awgrymu ei fod yn unig a'i bod yn hawdd gweld hynny. Mae'n drist fod yr ansoddair yn ei ddiffinio ac yn sicr mae'n rhoi naws unigrwydd i'r gerdd.

**Delweddaeth**

**Personoli –** disgrifio gwrthrych fel person.

**Trosiad** – disgrifio un peth fel petai'n rhywbeth arall.

**Cymhariaeth** – Cymharu un peth â rhywbeth arall, gan ddefnyddio 'fel' neu 'megis'.

## Tair Seren a Dymuniad





| Pwynt | Tystiolaeth | Esboniad |
|---|---|---|
| Methu gwneud dim drosto'i hun | | |
| Unig | | |
| Balch | | |
| Wedi'i adael | | |
| Ynysig | | |

**Meini Prawf Llwyddiant**

(PTE) Pwynt, Tystiolaeth, Esboniad;
(DAD) Dadansoddwch y gerdd yn fanwl;
(DYF) Dewiswch ddyfyniadau perthnasol;
(DEL) Dadansoddwch y delweddau;
(BU) Amrywiwch eich brawddegau;
(ESB) Datblygwch eich esboniadau;
(GA) Defnyddiwch y geiriau allweddol a roddir;
(GY) Cyfeiriwch at eiriau ac ymadroddion penodol;
(CC) Rhowch y gerdd yng nghyd-destun y cefndir;
(ST) Strwythurwch eich traethawd yn rhesymegol.
Nodyn: Cofiwch mai **llinellau a phenillion** sydd mewn barddoniaeth, **nid brawddegau a pharagraffau.**
*Cofiwch ddefnyddio'r tabl uchod i'ch helpu i drefnu eich syniadau.